Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council



Peiriannydd Profion Trydanol – Gweithiwr Cynnal a Chadw Adeiladau Aml-Sgil

Llwybr Gyrfa

Pecyn Gwybodaeth Swydd Wag

Manylion yr Hysbyseb

Teitl y Swydd: Peirianydd Profion Trydanol (Gweithiwr Cynnal a Chadw Adeiladau Aml-Sgil)
Lleoliad: Sir Ddinbych
Cyflog: Llwybr Gyrfa, Grads 5 i 7 (£29,064 - £36,363 y flwyddyn)
Oriau: 37 yr wythnos
Contract: Parhaol

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar y swydd hon, cysylltwch â Jason Jones (Prif Swyddog Cynnal a Chadw Tai) ar:

Ffôn: 01824 706712 E-bost: jones.jason@sirddinbych.gov.uk

Amserlen Recriwtio	
Dyddiad cau:	19 Mai 2026
Dyddiad cyfweliad:	i'w gadarnhau
Dyddiad dechrau:	Cyn gynted ag y bo'n bosib

Sut i wneud cais

I wneud cais am y swydd wag gyffrous hon, llenwch y ffurflen gais ar-lein ar ein gwefan www.sirddinbych.gov.uk

Amlinellwch ar eich ffurflen gais sut rydych chi'n cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd hon yn eich datganiad ategol. Gwnewch yn siwr eich bod yn nodi'n glir yn natganiad ategol eich cais sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y Radd rydych chi'n gwneud cais amdani.

I ganfod dulliau eraill o wneud cais, ffoniwch y Gwasanaeth Adnoddau Dynol ar 01824 706200.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais er mwyn cael eu hystyried. Mae'n ddrwg gennym na allwn ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, fe ddylech chi gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

Cydraddoldeb

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd ac yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a Safonau'r Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw ffurflen gais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na ffurflen gais a gyflwynir yn Saesneg.

hyderus o ran anabledd
ARWEINYDD

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Yn y rôl arbenigol hon, byddwch yn Drydanwr cymwys gyda phrofiad o weithio ar eiddo preswyl neu fasnachol.

Byddwch yn aelod gwych o dîm, yn gweithio gyda'ch cydweithwyr i gyflawni amrywiaeth oddyletswyddau trwsio a chynnal a chadw adeiladau. Mae'r rôl hon o fewn einGwasanaeth Eiddo Tai, ac mae gennym ni ystod o dai cyngor preswyl ac adeiladaucyhoeddus i ofalu amdanynt. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol felly sgiliau gwasanaethcwsmeriaid da, a hefyd y gallu i weithio o fewn terfynau amser.

Ynghyd â Gwasanaethau eraill yn y Cyngor, mae gan ein tîm rota ar gyfer argyfyngau y tu hwnt i oriau, ac mae staff yn derbyn lwfans ar alw ar ei gyfer, ac mae'r hyblygrwydd i allu bod yn rhan o hyn yn hanfodol.

Beth yw Llwybr Gyrfa?

Llwybr Gyrfa yw cynllun datblygu i weithiwr wneud cynnydd yn eu gyrfa. Yn debyg i brentisiaeth, mae Llwybr Gyrfa yn cynnig cyfle ffurfiol i ddatblygu gwybodaeth, dysgu sgiliau newydd ac ennill cymwysterau mewn maes penodol.

Rydym yn cynnig Llwybrau Gyrfa mewn amrywiaeth o sectorau a diwydiannau, ac ar lefelau amrywiol o brofiad. Maent hefyd yn cynnig y fantais unigryw o sicrhau swydd barhaol gyda Chyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir Ddinbych ar ôl cwblhau'r llwybr.

Mae gan Lwybrau Gyrfa swydd-ddisgrifiad lefel mynediad a fydd â chyflog is, a swydd-ddisgrifiad lefel terfynol a fydd â chyflog uwch. Yna gosodir cynllun datblygu i ddangos yn glir y sgiliau, profiadau, gwybodaeth a chymwysterau sydd eu hangen er mwyn datblygu trwy'r graddau nes eich bod yn cyrraedd y swydd-ddisgrifiad cyflog uwch lefel terfynol.

Buddion i staff

Credwn y dylai gwaith caled ac ymrwymiad ein staff gael eu gwobrwyo'n briodol. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fanteision i helpu ein gweithwyr i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, datblygu yn eu gyrfa, a'u cefnogi yn eu gwaith.

- Cyfleoedd gwaith hyblyg ac ystwyth
- Gwyliau blynyddol hael sy'n dechrau ar 26 diwrnod (yn ogystal â gwyliau banc) yn codi gyda hyd y gwasanaeth i gyfanswm o 32 diwrnod
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP)
- Arbedion Ffordd o Fyw trwy DCC Rewards Direct
- Cynllun aberthu cyflog car a chynllun prydlesu ceir
- Ystod o bolisïau cyfeillgar i deuluoedd

I weld y rhestr lawn o'r manteision rydyn ni'n eu gynnig, ewch i'n gwefan:
www.sirddinbych.gov.uk/tal-a-buddion

Swydd-ddisgrifiad

Teitl y Swydd: Peirianydd Profion Trydanol (Gweithiwr Cynnal a Chadw Adeiladau Aml-Sgil)
Cyflog: Llwybr Gyrfa, Grads 5 i 7
Gwasanaeth: Gwasanaethau Tai a Chymunedau
Maes Gwasanaeth: Cynnal a Chadw Tai
Yn atebol i'r: Arweinydd Tîm Cynnal a Chadw Tai
Rhif y Swydd: G5 – 03781 / G7 – 04523

Categori Iaith Gymraeg

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol - lefel 1
Lefelau o ran sgiliau Cymraeg

Pwrpas y Swydd

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gyflawni gweithrediadau arbenigol a thechnegol ar Stoc Tai Sir Ddinbych a fydd yn mynnu sgil, gwybodaeth dechnegol a phrofiad, yn cynnwys cynnal diagnosis o wallau a'u trwsio.

Archwilio, profi ac ardystio, yn annibynnol neu yn rhan o dîm, y gosodiadau gwifrau trydanol sefydlog o fewn stoc tai cymdeithasol ac adeiladau corfforaethol y Cyngor.

Cyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud â thrwsio, cynnal a chadw a gwella stoc tai ac adeiladau cyhoeddus y Cyngor naill ai yn annibynnol neu yn rhan o dîm. Y prif ddyletswyddau fydd gwaith trwsio a gosod trydanol.

I gefnogi gwaith Ôl-osod Cynnal a Chadw Tai drwy osod Atebion Ynni Arloesol, megis monitro perfformiad adeilad, Paneli PV solar a systemau storfa batri mewn i gartrefi tenantiaid.

Archwilio, profi ac ardystio anheddau a mannau cymunedol yn rheolaidd heb oruchwyliaeth.

Gwirio a gosod larymau mwg a gwres heb oruchwyliaeth.

Gwneud mân waith trwsio a gosod heb oruchwyliaeth i gywiro unrhyw ddiffygion sy'n cael eu canfod.

Prif Gyfrifoldebau

Ymgymryd â gwaith cynnal a chadw a thrwsio gosodiadau gwasanaethau adeiladu yn ddyddiol, yn cynnwys goleuadau, pŵer, ailosod lampau, systemau goleuadau mewn argyfwng, arbed ynni, rheolyddion gwresogi, systemau dŵr poeth a systemau ynni adnewyddadwy (megis MVHR, Solar PV a storfa batri).

Cynnal gwaith gwasanaethu rheolaidd a gwaith trwsio ymatebol i offer trydanol, yn cynnwys cynnal diagnosis o wallau a'u trwsio.

Llenwi adroddiadau cyflwr gosodiadau trydanol yn unol â rheoliadau NICEIC, gan ddarparu ardystiad gan ddefnyddio meddalwedd Click y Cyngor ar gyfer stoc tai Sir Ddinbych.

Cwblhau rhaglen gynnal a chadw ataliol a drefnwyd sy'n ymwneud ag archwiliadau trydanol, profion trydanol, goleuadau mewn argyfwng, gwasanaethau trydanol mewn ystod eang o adeiladau a sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau perthnasol, deddfau a rheoliadau statudol.

Cynorthwyo crefftwyr eraill yn ôl y gofyn. Cynnal gwaith trwsio adeiladu cyffredinol cysylltiedig a gweithgareddau crefft eraill i gwblhau atgyweiriadau boddhaol er mwyn cyrraedd amserlenni gwaith.

Amcangyfrif, gwneud cais ac argymell caffael deunyddiau angenrheidiol i sicrhau bod gwaith atgyweirio a chynnal a chadw priodol a boddhaol yn cael eu gwneud gan ddilyn arfer gorau a rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

Dyluniad a manylion am gylchedau trydanol i eiddo domestig yn cynnwys manylion ailweirio llawn, larymau tân a synwyryddion amgylcheddol. Darparu adroddiadau cyflwr trydanol.

Rheoli stoc deunyddiau cerbydau drwy sicrhau eu bod yn cael eu harchebu'n gywir ac ailgyflenwi eitemau a ddefnyddiwyd yn aml.

Defnyddio gwybodaeth a sgiliau i gofnodi ac adrodd ar statws a chyflwr gosodiadau a ffitiadau. Mae hyn er mwyn galluogi gwybodaeth briodol i gael ei lwytho mewn i adroddiadau yn cynnwys argymhellion sy'n ymwneud â chynnal a chadw yn y dyfodol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a datblygu sydd yn datblygu effeithiolrwydd personol a chynorthwyo i wella perfformiad yn y swydd.

Mynychu'r cyrsiau hyfforddi perthnasol sydd eu hangen i gynnal neu gaffael gwybodaeth am dechnoleg a rheoliadau newydd neu newidiol.

Trafod gyda chwsmeriaid mewnol ac allanol yn briodol a phrydlon, er mwyn sicrhau bod y rhai sydd yn gysylltiedig neu'n ymwneud â'ch gwaith yn ymwybodol o gynnydd a gweithred a gymerwyd neu gweithred angenrheidiol i drwsio diffygion a nodwyd.

Gweithio o bell yn effeithiol drwy weithredu system gofnodi electronig yn gywir lle mae'n cael ei ddefnyddio, i gynllunio apwyntiadau i gofnodi trefn swyddi yn cynnwys trosglwyddo a chynnal taflenni amser, cofnodi statws cwblhau gwaith, cofnodion cerbydau, rheoli deunyddiau a chynnydd yn erbyn amcanion targed a osodwyd ar gyfer amser, cost ac ansawdd.

Darparu gwasanaeth y tu allan i oriau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyfredol Cyngor Sir Ddinbych.

Gweithio yn amodol i derfynau amser sy'n cynnwys problemau, amgylchiadau, neu ofynion newidiol.

Dan gyfarwyddyd yr Arweinydd Tîm, gwneud gwaith trwsio a chynnal a chadw ar stoc dai'r Cyngor ac adeiladau cyhoeddus.

Ymateb i alwadau brys drwy gydol y diwrnod gwaith.

Gyrru fan, gan gynnwys cynnal unrhyw wiriadau dyddiol ac wythnosol perthnasol ar y cerbyd yn unol â pholisi cerbydau Fflyd Sir Ddinbych.

Ymgymryd â gwaith mewn modd diogel yn unol â'r holl ddeddfwriaethau iechyd a diogelwch presennol a Pholisïau'r Cyngor gan roi sylw dyledus i ddiogelwch personol, diogelwch cydweithwyr a'r cyhoedd. Bod yn gyfrifol am ddefnyddio amrywiaeth o offer symudol, peiriannau bach, ysgolion ac offer i allu gwneud y swydd.

Gallu datblygu'n barhaus dogfennau a safonau iechyd a diogelwch drwy gaffael y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth a safonau Prydeinig a chynnal yr wybodaeth honno, a sicrhau

bod y safonau hyn yn cael eu bodloni yn y gweithle. Bydd hyn yn cynnwys ymgymryd ag asesiadau risg a datganiadau dull a chyflwyniad diogelwch ar gyfer y gweithgareddau a gyflawnir. Gweithio o fewn canllawiau Iechyd a Diogelwch yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

Cynnal archwiliadau rheolaidd a dosbarthu tystysgrifau gosodiadau trydanol ar gyfer gwaith bach.

Cydosod, gosod neu gynnal a chadw systemau ffotofoltäig (PV) solar ar doeau neu strwythurau eraill, mewn cydymffurfiad ag asesiadau a diagramau safle. Gallai hyn gynnwys mesur, torri, cydosod a bolltio fframiau strwythurol a modiwlau solar. Gallai gynnwys gwneud mân waith trydanol fel gwiriadau cerrynt.

Cyffredinol

Gwneud gwaith trwsio a chynnal a chadw ar stoc dai'r Cyngor ac adeiladau cyhoeddus.

Ymateb i alwadau brys drwy gydol y diwrnod gwaith.

Gyrru fan, gan gynnwys cynnal unrhyw wiriadau dyddiol ac wythnosol perthnasol ar y cerbyd yn unol â pholisi cerbydau Fflyd Sir Ddinbych.

Cymryd eich tro i fod ar alw fel rhan o'r rota galwadau brys.

Cyfathrebu'n effeithiol â'ch cydweithwyr a'r tenantiaid.

Mae gallu siarad Cymraeg yn fanteisiol.

Gwneud yr holl hyfforddiant a datblygiad fel y bo angen.

Gweithio o fewn gofynion Polisi Amgylcheddol a System Reoli'r Cyngor.

Adnoddau/Offer/Deunyddiau

Graddfa 5/6/7: Cerbyd y cyngor, offer aml-fasnach (gal gynnwys offer pwer a gwefrwyr), ffon symudol, rhannau newydd stoc, offer amddiffynnol personol.

Graddfa 7: Yn gyfrifol am ddiogelwch peiriannau a chyfarpar arbenigol, deunyddiau a chynnal a chadw lefelau stoc a glustnodwyd ar gyfer cerbydau.

Goruchwylio/Rheoli Pobl

Graddfa 5/6: Dim
Graddfa 7: Disgwylir i chi hyfforddi prentisiaid fel y bo angen.

Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

Dylai deiliad y swydd fod yn Drydanwr profiadol. Gan hynny, mae'n rhaid iddynt fod ag ystod eang o wybodaeth am brofion trydanol a gwaith cyfarpar trydanol a bydd ganddynt gymhwyster profi, archwilio ac ardystio City & Guilds ynghyd ag AM1/AM2 a chymwysterau 18fed argraffiad y rheoliadau.

Rhaid i ddeiliad y swydd fod yn drydanwr cwbl gymwys (NHQ lefel 3).

Bydd ymgeiswyr yn gallu dilyn cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, gallu cwblhau amserlenni dyddiol a defnyddio systemau cyfathrebu symudol a chefnogaeth TG pan fo angen.

Dylai deiliad y swydd allu deall lluniadau a chynlluniau, ynghyd â chylchedau trydanol a diagramau sgematig i ofynion Safon Brydeinig 767 naill ai'n ddigidol neu ar bapur.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd wneud penderfyniadau cywir fel sy'n briodol i'r swydd fel Trydanwr mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a bod â'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol gyda Goruchwyliwr pan fydd problemau yn codi ar y safle.

Gwybodaeth ymarferol dda am drwydded i systemau gwaith, Deddf Trydan yn y Gwaith.

Gwybod beth yw'r newidiadau diweddaraf ym mhob deddfwriaeth a pholisïau perthnasol.

Profiad o weithio mewn eiddo domestig gyda rhywun yn byw ynddynt.

Deall y rhyngddibyniaeth ymysg crefftau adeiladu.

Deall prosesau a systemau gweinyddol

Profiad o weithio gyda'r cyhoedd

Sgiliau TG

Y gallu i reoli eich amser a'ch llwyth gwaith eich hun.

Creadigrwydd ac arloesedd wrth ddylunio, dewis cynnyrch, manylion a chyflawni boddhad uchel ymysg tenantiaid.

Mae trwydded yrru ddilys yn hanfodol.

Gofynion Gradd 5:

- Rhaid i ddeiliad y swydd fod a NVQ Lefel 2 mewn Gweithrediadau Trydanol neu gymhwyster cyfatebol, a bod yn gweithio tuag at NVQ 3 ac AM2.

Gofynion Gradd 6:

- Rhaid i ddeiliad y swydd fod yn drydanwr cymwysedig llawn (NVQ lefel 3 ac AM2).

Gofynion Gradd 7:

- Dylai deiliad y swydd fod yn Drydanwr profiadol sydd wedi gweithio ers amser maith. O'r herwydd, rhaid iddynt feddu ar ystod eang o wybodaeth am brofi trydanol a gwaith gosod trydanol a bod a chymhwyster profi, archwilio ac ardystio City a Guilds, ynghyd a chymwysterau City a Guilds AM1&AM2, cymwysterau Rheoliadau Gosod Trydanol 18fed Argraffiad, gwobr Lefel 3 mewn gosod systemau ffotofoltaig solar ar raddfa fach (Cwrs Systemau Ffotofoltaig Solar BPEC) a gwobr Lefel 3 mewn dylunio, gosod a chomisiynu system storio ynni trydanl (BPEC 0059 Cyflwydniad i EESS).

Amodau Gwaith Arbennig

Darperir cyfarpar diogelu personol priodol. Dylid disgwyl gweithio mewn mannau cyfyng.

Archwiliadau Cyflogaeth/Gofynion Penodol

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 mlynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac oedolion ynghyd ag atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, a bydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl weithwyr cyflogedig Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor. Mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion o gam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r Cyngor allu gweithredu'n ddi-oed pan fydd yn dod ar draws achos o gam-fanteisio.

Gweledigaeth/Cyd-destun

Mae'r swydd hon yn galluogi Gwasanaeth Cynnal a Chadw Tai Sir Ddinbych i gyflawni ei rwymedigaethau o ran gofynion ein cwsmeriaid.

Manylion am yr Unigolyn

Mae'r swyddi hyn yn rhan o Lwybr Gyrfa, sy'n golygu y gallwn ystyried ymgeiswyr nad ydynt efallai yn ateb yr holl feini prawf ar gyfer Peirianydd Profion Trydanol cwbl gymwys a phrofiadol.

Bydd ymgeiswyr sy'n ateb yr holl feini prawf a osodir yn y rôl ar y raddfa uchaf yn cael blaenoriaeth wrth ystyried ymgeiswyr ar gyfer cyfweliad. Fodd bynnag, rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan rai sy'n ateb y meini prawf yn y graddfeydd is hefyd. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cefnogi i symud ymlaen trwy'r graddfeydd nes eu bod yn ddigon cymwys a phrofiadol, a byddant yn cael eu talu yn unol â'r meini prawf y maent yn eu hateb.

	Gweithredwr Aml-Sgil - Gradd 5 (03781)	Gweithiwr Cynnal a Chadw Adeiladau Aml-Sgil (Trydanwr) - Gradd 6	Peiriannydd Profion Trydanol – (Cynnal a Chadw Tai) - Gradd 7 (04523)
1. Addysg a Chymwysterau	NVQ Lefel 2 mewn Gweithrediadau Trydanol neu gymhwyster cyfatebol, ac yn gweithio tuag at NVQ 3 ac AM2 Sgiliau llythrennedd a rhifedd da Trwydded yrru sy'n ddilys	Trydanwr cwbl gymwys (NVQ Lefel 3) Crefftwr cymwys / profiadol mewn 2 neu fwy o'r crefftau cydnabyddedig Lefel dda o lythrennedd a rhifedd Trwydded yrru sy'n ddilys	Trydanwr cwbl gymwys (NVQ Lefel 3) C&G 2382-22 IET Rheoliadau Gwifro 18fed Argraffiad AMD 2 C&G 2391-51 neu gymhwyster C&G lefel 3 Profi ac Archwilio Dyfarniad Lefel 3 mewn Gosod Systemau solar PV graddfa bach (Cwrs BPEC Systemau Solar Ffotofoltäig) Dyfarniad Lefel 3 mewn dylunio, gosod a chomisiynu systemau storio ynni trydanol (BPEC 0059 Introduction to EESS) Hyfforddiant awyru domestig NICEIC neu gyfystyr Lefel dda o lythrennedd a rhifedd Trwydded yrru sy'n ddilys

2. Profiad Personol	Profiad o atgyweirio adeiladau a gwaith cynnal a chadw. Gwybodaeth a dealltwriaeth o reoliadau a gofynion iechyd a diogelwch. Byddai cymhwyster yn y rheoliad trydanol diweddaraf (18fed Argraffiad) yn ddymunol.	Profiad o atgyweirio adeiladau a gwaith cynnal a chadw Gwybodaeth a dealltwriaeth o reoliadau a gofynion iechyd a diogelwch. Meddu ar gymwysterau yn y rheoliad trydanol diweddaraf (18fed Argraffiad).	Profiad o atgyweirio adeiladau a gwaith cynnal a chadw Gwybodaeth a dealltwriaeth o reoliadau a gofynion iechyd a diogelwch. Meddu ar gymwysterau yn y rheoliad trydanol diweddaraf (18fed Argraffiad).
3. Gwybodaeth a Sgiliau Cysylltiedig â'r Swydd	Defnyddio cerbydau, peiriannau a chyfarpar sy'n gysylltiedig â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw. Codi a symud deunyddiau adeiladu a pheiriannau / offer. Rhywfaint o brofiad mewn crefftau eraill fel gwaith saer / plymio / mân blastro sylfaenol.	Defnyddio cerbydau, peiriannau a chyfarpar sy'n gysylltiedig â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw. Codi a symud deunyddiau adeiladu a pheiriannau / offer. Profiad a chymhwystra mewnsawl crefft.	Defnyddio cerbydau, peiriannau a chyfarpar sy'n gysylltiedig â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw. Codi a symud deunyddiau adeiladu a pheiriannau / offer. Profiad a chymhwystra mewnsawl crefft.
4. Rhinweddau Personol	Sgiliau cyfathrebu da, gallu gweithio mewn tîm. Trefnus / gweithgar ac yn gallubodloni terfynau amser cadarn.	Profiad o weithio'n annibynnol ac mewn tîm Sgiliau cyfathrebu da. Trefnus / gweithgar ac yn gallubodloni terfynau amser cadarn	Profiad o weithio'n annibynnol ac mewn tîm Sgiliau cyfathrebu da. Trefnus / gweithgar ac yn gallubodloni terfynau amser cadarn
5. Gofynion Eraill	Empathi gyda'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Trwydded yrru sy'n ddilys. Hyblygrwydd ac ar gael os oes angen i wneud gweithgareddau tu hwnt i oriau gwaith.		

Diolch i chi am eich diddordeb

Cyngor Sir Ddinbych

Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk/gweithio-gyda-ni

Facebook: SwyddiCyngorSirDdinbych

X: @DenbighshireCC

Pencadlys: Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN